CLUB LIFE

Empower, Engage, Sustain

4689 – Y Llwybr at Hoci

Mae 4689 yn fformat gyda chynnydd sy'n gwneud yn union beth mae'r enw'n ei awgrymu, ond gyda'r bonws ychwanegol o gyflwyno arweinwyr a dyfarnwyr ifanc o oedran ifanc. Mae hyn yn golygu bod y plant yn arfer â gwahanol swyddogaethau mewn hoci ac yn datblygu'r gwahanol gryfderau a diddordebau sydd gan bobl ifanc.
Ceir pedair lefel, gyda thimau wedi'u gosod ar 4 v 4, ac wedyn 6 v 6 (4 chwaraewr a hyfforddwr a dyfarnwr ar gyfer pob tîm), wedyn 8 v 8 (6 chwaraewr a hyfforddwr a dyfarnwr ar gyfer pob tîm) ac i orffen 9 v 9 (7 chwaraewr a hyfforddwr a dyfarnwr ar gyfer pob tîm). Mae hyn yn caniatáu lefel hyblyg a hygyrch o hoci, heb fod yn ormod o dreth ar ddysgwyr newydd. Ni fydd chwaith yn rhy hawdd i chwaraewyr hoci mwy profiadol.
Os ydych chi eisiau cyflwyno'r fformat 4689, gan ddibynnu ar eich profiad, byddwch yn gallu mynychu gweithdy hyfforddi tair neu chwe awr wedi'i gymeradwyo gan Sports Leaders UK, sy'n rhoi mynediad i chi i wefan 4689.

Mae'r wefan yn adnodd cynhwysfawr sy'n cynnwys y canlynol:

- 46 o gardiau technegol
- 30 o weithgareddau a fideos
- Rheolau a fformatau cystadlu ar gyfer pob lefel
- Ffyrdd i gymryd mwy o ran!

Pam dilyn cwrs arweinwyr 4689?
Mae cymaint o fanteision i'r fformat yma ar gyfer cyflwyno hoci:

- Adnodd sylfaenol i ddarparu cyfleoedd gwych i chwaraewyr ar bob lefel
- Addysgu a hyfforddi drwy chwarae seiliedig ar gemau
- Cysylltiadau â'r cwricwlwm
- Cyfleoedd gwych i fwy o blant gymryd rhan
- Cyfleoedd arwain wedi'u cynnwys ar gyfer pobl ifanc o oedran ifanc
- Gallu defnyddio a manteisio i'r eithaf ar y gofod chwaraeon presennol, gan alluogi mwy o bobl ifanc i gymryd rhan

Pwy sy'n cael cyflwyno 4689?
Unrhyw un! Athro ysgol, hyfforddwr clwb, rhiant awyddus neu'r ddynes gwneud te! Os ydych chi'n awyddus i helpu gyda datblygu hoci ledled Cymru, fe allwch chi gymryd rhan. Ffoniwch 02920334992 neu anfonwch e-bost i debra.barker@hockeywales.org.uki ddechrau arni.

For more information, visit:
www.hockeywales.org.uk/play/club-life

HOCKEY WALES
HOCI CYMRU